

# Adroddiad Blynyddol am Gydraddoldeb Hiliol 2008

## Adroddiad i'r Cyngor am Gydraddoldeb Hiliol

1. Y Cyd-destun .....	2
2. Sefyllfa'r Polisi, y Cynllun Gweithredu, a'r Asesiad o'r Effaith .....	3
3. Gwreiddio Cydraddoldeb Hiliol, a'i Roi yn y Brif Ffrwd.....	4
a. Y Pwyllgor a'r Wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb.....	4
b. Digwyddiadau Rhwydweithio .....	5
c. Ehangu Mynediad.....	6
d. Cymorth Iaith a Myfyrwyr Rhyngwladol .....	7
e. Hyfforddiant a Chefnogaeth.....	7
f. Prynu Nwyddau a Gwasanaethau .....	8
g. Y Gymraeg .....	9
h. Y Strategaeth Dysgu ac Addysgu .....	9
4. Monitro Ethnig .....	9
- Cymariaethau Demograffig .....	10
- Monitro'r Myfyrwyr .....	11
- Monitro'r Staff.....	11
- Data Arall .....	12
5. Casgliadau .....	13
Atodiad 1 – Adroddiad Monitro Hiliol Blynyddol 2008 .....	15-22

## 1. Y Cyd-destun

- (i) Dyma'r chweched Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb Hiliol i gael ei gyflwyno i'r Cyngor ar ôl mabwysiadu Polisi Cydraddoldeb Hiliol a Chynllun Gweithredu Prifysgol Aberystwyth yn 2003 a'u diweddarau yn 2006. Mae'r adroddiad yn pwysu a mesur effaith y Polisi a'r Cynllun Gweithredu yn ystod y 12 mis diwethaf, fel rhan o ddyletswyddau'r Brifysgol yn ôl **Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000**.
- (ii) Y Cynghorydd Cydraddoldeb sydd wedi paratoi'r adroddiad, ar ôl ymgynghori â Swyddogion yn y Brifysgol, a Chadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb. Cyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2008 ac fe fydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg fel dogfen gyhoeddus ar y wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb yn <http://www.aber.ac.uk/en/equal-oppo> neu drwy law'r Cynghorydd Cydraddoldeb yn yr Adran Adnoddau Dynol. Mae pob Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb Hiliol ers 2003 ar gael ar y wefan uchod. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru hefyd.
- (iii) Yn sgil adroddiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (sef y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol erbyn hyn) ynghylch cydraddoldeb ac amrywioldeb mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, yn ogystal ag adolygiad gan Gus John Partnership (GJP), a gomisiynwyd gan y Cyngor Cyllido i edrych ar Bolisïau ac Adroddiadau Cydraddoldeb Hiliol y Brifysgol, mae'r Brifysgol wedi derbyn eu hargymhellion, fel y gellir gweld yn adroddiad y llynedd, ac mae'n dal ati i gryfhau ei hymrwymiad i Gydraddoldeb Hiliol. Ar ben hynny, yn ôl llythyr oddi wrth y Cyngor Cyllido at yr Is-Ganghellor a Phrifathro, dyddiedig 17 Mawrth 2008 "...ymddengys ichi roi ystyriaeth sylweddol i'r argymhellion, a da yw nodi bod eich Adroddiad ar Gydraddoldeb Hiliol 2007 yn cynnwys adran benodol ar faterion Dysgu ac Addysgu". Mae'r Cyngor Cyllido yn mynd ymlaen i awgrymu bod y Brifysgol yn cynnwys y staff a'r myfyrwyr gwynion fel budd-ddeiliaid allweddol hefyd, a'i bod yn rhoi datganiadau manwl ynghylch sut y bydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith. Mae hefyd yn argymhell camau i gynorthwyo myfyrwyr duon a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig sy'n dod o dramor. Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn.
- (iv) Mae'r llythyr oddi wrth y Cyngor Cyllido hefyd yn datgan y dylai ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol i 2008 a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig adlewyrchu'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad gan GJP. Yn sgil ymgynghori ynghylch y mater hwn, ac o gofio mai yn 2006 oedd y tro diwethaf i'r Polisi a'r Cynllun Gweithredu gael eu diweddarau, ni fydd y Brifysgol yn diweddarau'r dogfennau hyn, ond fe fydd yn ceisio cynnwys camau yn y mecanweithiau blynyddol ar gyfer adrodd am gydraddoldeb hiliol. Bwriad y Brifysgol yn y pen draw yw datblygu Cynllun Cydraddoldeb Unigol yn y flwyddyn nesaf a fydd yn cynnwys cydraddoldeb hiliol.
- (v) Fel y nodwyd yn yr adroddiadau blaenorol, mae Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, yn gosod dyletswydd gyffredinol ar y Brifysgol i (1) gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil; (2) hybu cyfle cyfartal; a (3) hybu cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hil. Mae'r dyletswyddau hyn yn ymrwymo'r Brifysgol yn gyfreithiol fel corff corfforaethol ac yn ymrwymo aelodau unigol o'r Cyngor, y staff a'r myfyrwyr. Fel rhan o'i dyletswyddau penodol o dan y Ddeddf, mae'r Brifysgol yn deall bod angen:
- rhoi ei Pholisi Cydraddoldeb Hiliol a'r Cynllun Gweithredol ar waith;
  - asesu sut mae ei pholisïau (gan gynnwys y Polisi Cydraddoldeb Hiliol) yn effeithio ar fyfyrwyr a staff o wahanol grwpiau hil;

- monitro myfyrwyr yn y broses dderbyn a'r cynnydd maent yn ei wneud, yn ogystal â monitro staff o wahanol grwpiau hil o safbwynt recriwtio, cadw staff, a datblygu gyrfaol;
  - cyhoeddi canlyniadau'r asesiadau a'r monitro bob blwyddyn (fel a geir yr Adroddiad Cydraddoldeb Hiliol hwn).
- (vi) Yn ogystal â'r Polisi Cydraddoldeb Hiliol, mae'r Brifysgol hefyd wedi gweithredu Polisi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, Cynllun Cydraddoldeb Anabledd, Cynllun Cydraddoldeb Rhywedd, ar y cyd â'u Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig. Mae hefyd wedi cyhoeddi datganiad ar Oedran. Fel y nodwyd uchod, mae'r Brifysgol yn bwriadu cyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Unigol yn unol â strategaeth y Cyngor Cyllido.

**Crynodeb:** *Dyma'r chweched Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb Hiliol a wneir yn unol â gofynion Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Mae'r Brifysgol yn bwriadu datblygu Cynllun Cydraddoldeb Unigol yn ystod y flwyddyn nesaf.*

## 2. Sefyllfa'r Polisi, y Cynllun Gweithredu, a'r Asesiad o'r Effaith

- (i) Yn ôl y Ddeddf, y mae'n rhaid i'r Brifysgol, fel corff cyhoeddus, asesu effeithiau ei Pholisi Cydraddoldeb Hiliol a'r Cynllun Gweithredu er mwyn gweld a yw ei pholisïau a'i gweithdrefnau yn dwyn effeithiau gwahanol ar wahanol grwpiau ethnig, er mwyn helpu i ddod o hyd i unrhyw feysydd posib o ddiffyg cydraddoldeb, a fydd yn ein helpu i osgoi gwahaniaethu, i ddatblygu ein polisïau, ac i sicrhau ein bod yn gweithio mewn modd mwy agored.
- (ii) Yn Rhagfyr 2006 dechreuodd y Brifysgol ei phroses o bwysu a mesur ei pholisïau i weld sut maent yn effeithio ar gydraddoldeb, i bob un o'r ceinciau cydraddoldeb. Mae cydraddoldeb hiliol wedi'i gynnwys fel un o'r ceinciau cydraddoldeb. Ar ôl i'r broses hon o asesu effeithiau polisïau ar gydraddoldeb, gyda'r hyfforddiant priodol, gael ei chyflwyno, bu mwy na 35 o adrannau ac isadrannau yn pwysu a mesur mwy na 300 o bolisïau'r Brifysgol.
- (iii) Awgrymir bod angen pwysu a mesur mwy o bolisïau allweddol er mwyn gweld sut maent yn effeithio ar staff, ymwelwyr ac ymgeiswyr, cyn llunio'r adroddiad ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chyn mynd ati i nodi'r meysydd a allai fod yn destun pryder. Hefyd cynigir ehangu'r asesiad ymhellach ac ymgynghori â'r staff a'r myfyrwyr er mwyn dod o hyd i unrhyw bolisïau neu ffyrdd o weithio a allai fod – neu sydd – yn cael effaith andwyol. Ar ôl i'r broses honno gael ei chynnal bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei roi ar waith.
- (iv) Cafodd strategaeth gynhwysfawr ar gyfer hyfforddiant ymarferol ei darparu yn 2007 i fwy na 260 o aelodau o'r staff, gan gynnwys aelodau'r Cyngor, Tîm yr Uwch Reolwyr a Phenaethiaid yr Adrannau. Roedd yr hyfforddiant hwnnw yn cynnwys un sesiwn drwy'r Gymraeg a sesiwn hyfforddi benodol i'r Adran Adnoddau Dynol. Mae strategaeth e-ddysgu orfodol ar amrywioldeb, sy'n cynnwys modiwl hyfforddi ar Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 a modiwl cyffredinol ar faterion hil, wedi cael ei chynnal ar ffurf arbrofol ddwywaith yn ystod y flwyddyn ac erbyn hyn mae'n cael ei darparu i'r staff. Mae'r Brifysgol wedi cyfieithu'r modiwl er mwyn cynnwys siaradwyr Cymraeg.
- (v) Fel yr adroddwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb Hiliol yn 2007, cafodd y Polisi Cydraddoldeb Hiliol a'r Cynllun Gweithredol eu diweddarau ym Mai 2006, ac maent ar gael yn ddwyieithog fel dogfen gyhoeddus ar ein gwefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb.

- (vi) Dyma'r camau y mae'r Brifysgol wedi'u cymryd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiadau gan GJP a'r Comisiwn Cyfartaledd Hiliol yn 2006:
- rhoi manylion o gefndiroedd demograffig, gan gynnwys data am gyfansoddiad yr holl fyfyrwyr a staff o ran eu hil, yn ogystal â'r ceinciau cydraddoldeb eraill, a manylion am beth mae graddedigion duon a graddedigion o leiafrifoedd ethnig yn ei wneud wedi graddio, yn dystiolaeth yn ein Hadroddiad Monitro Cydraddoldeb Hiliol yn 2007 a 2008;
  - hybu cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hil drwy, er enghraifft, y digwyddiadau Rhwydweithio yn eitem 3 isod – Gwreiddio Cydraddoldeb Hiliol, a'i Roi yn y Brif Ffrwd;
  - dylid ymgorffori materion hil yn y strategaethau Dysgu ac Addysgu, yn unol â'r genadwri a ddaeth o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb yn 2007;
  - adolygu sut mae gwasanaethau yn cael eu prynu a'r camau a gymerir i gefnogi'r myfyrwyr gwynion a'r myfyrwyr a'r staff du a'r rhai o leiafrifoedd ethnig sy'n dod o wledydd tramor.
- (vii) fel y dywedwyd yn ei hadroddiad yn 2007, mae'r Brifysgol yn ymdrechu i hybu diwylliant o gydraddoldeb ac arddel ymarfer da ym maes cydraddoldeb hiliol. Fel y dywedwyd gynt hefyd nid oes dystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos bod polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn effeithio yn andwyol ar wahanol grwpiau hil, ond os oes materion o'r fath, fe fydd proses y Brifysgol i asesu'r affaith ar gydraddoldeb yn dod â nhw i'r amlwg.

**Crynodeb:** *Mae strategaeth y Brifysgol i gyflwyno hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ynghylch amrywioldeb, sy'n cynnwys modiwlau hyfforddi ar Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ac ar faterion hil wedi'i rhoi ar waith; mae'r gwaith yn mynd rhagddo i asesu sut mae mwy na 300 o bolisiau yn effeithio ar gydraddoldeb ac mae'r Brifysgol wedi ystyried argymhellion gan gyrff allanol a'u hymgorffori yn yr adroddiad hwn.*

### 3. Gwreiddio Cydraddoldeb Hiliol, a'i Roi yn y Brif Ffrwd

#### a. Y Pwyllgor a'r Wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb:

- (i) Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, sef cydbwyllgor o'r Cyngor a'r Senedd, wedi cyfarfod deirgwaith yn ystod y flwyddyn 2007/8. Mae'r Pwyllgor yn dal i gydlynu'r strategaeth cyfle cyfartal ac amrywioldeb, llunio polisi, monitro sut mae'r polisi yn cael ei weithredu, rhoi cyngor ar ddatblygiadau yn y gyfraith a hybu a lledaenu'r ymarfer gorau. Bydd y Pwyllgor yn ystyried a fydd modd cael Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ac Amrywioldeb ym mhob adran yn ystod y broses ymgynghori ar y Cynllun Cydraddoldeb Unigol.
- (ii) Mae gwefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb y Brifysgol <http://www.aber.ac.uk/human-resources/en/equal-opps/> yn dal i gael ei diweddarau ac mae'n cynnwys polisïau, cynlluniau gweithredu, datganiadau gan yr Is-Ganghellor, ystod o adroddiadau, a chysylltiadau defnyddiol â phob cainc cydraddoldeb.
- (iii) Bydd Adroddiad Blynyddol y Brifysgol ar Gydraddoldeb Hiliol i 2008 yn cael ei roi ar y wefan hon yn ddwyieithog ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor a'i gyfieithu i'r Gymraeg.

## b. Digwyddiadau Rhwydweithio:

- (i) Dyma'r digwyddiadau rhwydweithio a gynhaliwyd yn 2007-08 a oedd yn berthnasol i gydraddoldeb hiliol :
  - a. Medi 2007 – Ffair y glas gyda Swyddogion Sabothol, e.e. y Swyddog Amrywioldeb a Datblygu, yn bresennol.
  - b. Chwefror 2008 – Gŵyl y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd – dathliadau'r Flwyddyn Newydd eto, drwy gydweithredu â myfyrwyr Tsieineaidd, Urdd y Myfyrwyr a rhaglen Canolfan y Celfyddydau. Cafwyd penwythnos o weithgareddau, fel y seremoni agoriadol, arddangosfa o gelfyddyd Tsieineaidd, crefftau, perfformiadau, campau ymladd, bwyd Tsieineaidd, cerddoriaeth, ffilmiau a thân gwyllt.
  - c. Mawrth 2008 – Aeth y Cynghorydd Cydraddoldeb, gyda Swyddog Amrywioldeb a Datblygu Urdd y Myfyrwyr, a Chyfarwyddwr Partneriaeth Ehangu Mynediad y Gorllewin a'r Canolbarth i gyfarfodydd allanol o Grŵp Cyflawni Cydraddoldeb Gwasanaethau Ceredigion (sef Bwrdd Cydraddoldeb a Hyder Ceredigion erbyn hyn). Cafodd y cyfarfod ei drefnu gan Heddlu Dyfed-Powys a'i gynnal ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cafodd monitro materion hil, a chrefydd a ffydd eu trin a'u trafod yn y cyfarfod hwnnw (yn ogystal â'r ceinciau cydraddoldeb eraill).
- (ii) Rhoddodd Swyddog Amrywioldeb a Datblygu Urdd y Myfyrwyr wybod inni am y digwyddiadau isod:
  - d. Tachwedd 2007 - Cynhaliodd '*Identify 2007*' sef wythnos hybu ymwybyddiaeth lle y cynhaliwyd digwyddiad amrywioldeb yn Undeb y Myfyrwyr. Dangoswyd amrywiaeth o ffilmiau gan gynnwys: '*This is England*', '*Crouching Tiger Hidden Dragon*', '*City of God*' a '*Moulembe*'. Bu'r Urdd hefyd yn cynnal gwersi Sbaeneg, Pwyleg a Ffinneg yn ogystal â Noson Rhythm a Dawns lle y dysgwyd Salsa, Bangra a Dawnsio Cymreig. Roedd diwrnod 'Balchder mewn Celf' hefyd a oedd yn gyfle i arddangos barddoniaeth, celf, llenyddiaeth, cerddoriaeth ac un ffilm, i gyd yn berthnasol i faterion LHDT (lesbiaid, hoywon, y deurywiol a'r trawsrywiol).
  - e. Cynhaliodd Undeb y Myfyrwyr wythnos ddiwylliant ym mis Ebrill 2008 pan gafwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol gan gynnwys arddangosfa o gampau ymladd ac amrywiaeth o ffilmiau.
  - f. Mae Cymdeithasau'r Myfyrwyr Rhyngwladol, Myfyrwyr Asia a'r Môr Tawel, a Myfyrwyr Affro-Garibiaidd i gyd yn ffynnu ac maent wedi denu nifer da o aelodau sy'n rhwydweithio a dod i adnabod ei gilydd.
- (iii) Mae'r Brifysgol yn dal i dderbyn gwybodaeth a chyhoeddiadau oddi wrth yr Uned Her Cydraddoldeb, corff sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb i staff a myfyrwyr yn y sector addysg uwch. Ymhlith eu cyhoeddiadau ceir: *Promoting good campus relations – an institutional imperative; Conducting Equality Impact Assessments in Higher Education; Inclusive Campus: Accommodation and Social Space*. Mae manylion ar gael ar [http://www.ecu.ac.uk/publications/pubs\\_guidance.html](http://www.ecu.ac.uk/publications/pubs_guidance.html).
- (iv) Yn allanol, mae'r Brifysgol yn cyfrannu at waith grŵp cydlynu Cymru i'r Uned Her Cydraddoldeb. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol a sefydliadau eraill yng Nghymru.
- (v) Yn fewnol, mae'r Cynghorydd Cydraddoldeb yn dal i gydlynu ag Urdd y Myfyrwyr ar faterion cydraddoldeb hiliol ac yn darparu hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb, gan gynnwys hil, bob blwyddyn i'r Rheolwyr a'r Swyddogion Sabothol.

### **Datblygu a Materion Allanol**

- (vi) Dyma'r ystod o ddigwyddiadau a gynhelir gan Ddatblygu a Materion Allanol i gefnogi'r myfyrwyr

- a. Digwyddiad Croesawu Teuluoedd – cynhelir y digwyddiad hwn cyn i'r tymor gychwyn fel y caiff teuluoedd gyfle i gyfarfod â chynrychiolwyr o adrannau'r gwasanaethau cynorthwyol a chael gwybod pa gymorth sydd ar gael i gefnogi myfyrwyr o wledydd Prydain a thramor.
- b. Croeso i'r Myfyrwyr Rhyngwladol – cynhelir y digwyddiad hwn ar ddechrau'r tymor hefyd i groesawu'r holl fyfyrwyr newydd i Aberystwyth (sef israddedigion, uwchraddedigion, a myfyrwyr ar gynlluniau cyfnewid ac ymweld). Mae'r Is-Ganghellor yn cyflwyno rhai o'r staff o'r llwyfan: sef staff o'r Swyddfa Llety, y Swyddfa Lles, y Swyddfa Gyllid, y Llyfrgelloedd a'r Gwasanaethau Gwybodaeth, y Ganolfan Iaith a Dysgu, Urdd y Myfyrwyr, Swyddog Rhyngwladol y Myfyrwyr, Swyddog Lleiafrifoedd Ethnig y Myfyrwyr.
- c. Digwyddiadau Cymdeithasol i Fyfyrwyr Cyfnewid – mae'r digwyddiadau rhwydweithio hyn yn cael eu trefnu gan y Swyddfa Astudio Tramor ac yn cael eu cynnal ar ddechrau pob semester i groesawu'r myfyrwyr newydd sydd ar gynlluniau cyfnewid ac ymweld, ac i roi cyfle iddynt gwrdd â myfyrwyr eraill yn y Brifysgol.

### c. Ehangu Mynediad

- (i) Mae Partneriaeth Ehangu Mynediad y Gorllewin a'r Canolbarth, corff y mae Prifysgol Aberystwyth yn brif bartner ynddo, yn dal i gynnwys aelodaeth o gymunedau lleiafrifol ethnig fel un o'i meini prawf ar gyfer cael ymuno â'i gweithgareddau. Mae wedi datblygu ystod o gysylltiadau arbenigol er mwyn hybu proffil y rhaglen ymhlith grwpiau o leiafrifoedd ethnig ac mae'n dal i dargedu pobl ifainc o gymunedau Sipiwn Romani yn Sir Benfro er mwyn eu hannog i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant.
- (ii) Mae'r prosiect i Sipsiwn *Finding Your Voice* wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth annog y grŵp lleiafrifol ethnig unigryw hwn i ystyried Addysg Bellach ac Uwch, er ei bod hi'n beth estron iawn i draddodiadau diwylliannol cymuned y sipsiwn. Mae un aelod o staff Prifysgol Aberystwyth wedi cynnal gweithdai ysgrifennu creadigol yn rheolaidd i bobl ifainc yn unedau'r sipsiwn yng Nghil-maen a Hwlfordd ac mae wedi trefnu iddynt ddod i weld Coleg Sir Benfro a Phrifysgol Aberystwyth. Mae llwyddiant y prosiect yn golygu y bydd yn para am flwyddyn arall, gan gydweithio'n agos â gweithdai Ehangu Mynediad Cymru, sef prosiect i deuluoedd o bobl ddu a theuluoedd o leiafrifoedd ethnig, a arweinir ac a ariannir gan Brifysgol Abertawe.
- (iii) Aeth Prifysgol Haf Cymru y tu hwnt i'r targedau o ran denu pobl o gymunedau lleiafrifau ethnig yn 2007, gyda mwy na 20% o'r myfyrwyr yn dod o'r grŵp hwnnw, gan gynnwys pedwar o geiswyr lloches. Mae'r cysylltiadau ardderchog a ddatblygwyd ag ysgolion, colegau a chymunedau yn hanfodol i sicrhau bod myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yn magu'r hyder i wneud cais am y brifysgol haf a'u bod yn gallu mwynhau'r profiad a llwyddo ynddo.
- (iv) Mae Canolfan Ehangu Mynediad a Chynhwysiant Cymdeithasol Prifysgol Aberystwyth yn dal ati i ddatblygu cysylltiadau â Pharthau Gweithredu ar Addysg ac mae'r ganolfan wedi cynnal dau ddiwrnod Blas ar Fywyd Prifysgol, gan gynnwys un diwrnod preswyl i bobl ifanc ym Mlwyddyn 10 o fewn cynllun Anelu'n Uwch Lloegr. Mae'r disgyblion hyn yn dod o Orllewin Canolbarth Lloegr ac mae'r grŵp yn cynnwys canran fwy na'r cyfartaledd o bobl o leiafrifoedd ethnig. Bu'r ymweliadau yn llwyddiannus iawn ac mae'r atborth yn dangos bod mwy na 90% ohonynt yn dweud eu bod yn fwy tebygol o ystyried Addysg Uwch.
- (v) Mae'r Ganolfan yn dal i redeg y Cynllun Mentora 'Ffordd Hyn' sy'n helpu israddedigion yn eu blwyddyn gyntaf. Mae'r mentoriaid yn rhoi cymorth gydag unrhyw agwedd ar fywyd yn y brifysgol (yn academiaidd, cymdeithasol, diwylliannol

neu ariannol), yn darparu cysylltiadau â gwasanaethau sydd ar gael i fyfyrwyr yn y brifysgol, ac yn eu helpu i ddal ati â'u hastudiaethau ac i ymdopi â bywyd ar y Campws. Mae'r dadansoddiad o Semester 1 yn dangos bod 4 (sef tua 14%) o'r myfyrwyr a gafodd eu mentora, (a 10% o'r mentoriaid) yn dod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Rydym yn ystyried targedu yn fwy manwl yn y flwyddyn academaidd nesaf er mwyn helpu â gwaith yr adrannau.

#### **d. Cymorth Iaith a Myfyrwyr Rhyngwladol;**

- (i) Mae bywyd addysgol a diwylliannol y Brifysgol yn dal i gael ei gyfoethogi yn fawr gan y niferoedd sylweddol o fyfyrwyr o tu hwnt i wledydd Prydain ac Ewrop sy'n dod yma, ac ar hyn o bryd mae gennym fyfyrwyr sy'n hanu o ryw 90 o wledydd. Mae'r Brifysgol yn rhoi blaenoriaeth i helpu'r myfyrwyr hyn ddod yn rhan o'u hadrannau, y Brifysgol a'r dref drwy, er enghraifft, gynnal Diwrnodau Croeso a digwyddiadau rhwydweithio i fyfyrwyr Ewropeaidd a Rhyngwladol.
- (ii) Mae'r Ganolfan Iaith a Dysgu yn rhoi gwersi a chymorth ieithyddol. Mae'r Ganolfan yn gweithio i hybu Cyfle Cyfartal yn y Brifysgol drwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau i helpu pob myfyrwr i wireddu ei botensial academaidd. Mae Rhaglenni'r Sesiynau yn darparu modiwlau ar ysgrifennu academaidd i israddedigion nad yw Saesneg yn famiaith iddynt, yn ogystal â gweithdai, cyrsiau byrion a sesiynau ymgynghori unigol ar sgiliau astudio ac ysgrifennu academaidd i siaradwyr mamiaith ac ail-iaith. Mae adran Mynediad i'r Cwricwlwm Dysgu Academaidd a'r Gwasanaeth Dyslecsia hefyd yn cynnig cymorth a chyfleoedd i fyfyrwyr sydd â gwahaniaethau dysgu drwy gynnig profion ac adroddiadau diagnostig, rhaglenni cymorth i unigolion, cyfarfodydd grŵp a modiwl i israddedigion. Mae Rhaglenni'r Sesiynau ac adran Mynediad i'r Cwricwlwm Dysgu Academaidd a'r Gwasanaeth Dyslecsia yn cydweithio â Chynllun Cymrodoriaethau'r Gronfa Lenyddol Frenhinol, sy'n ariannu tri ysgrifennwr proffesiynol i weithio rhan-amser fel Ysgrifennwyr Preswyl yn y Ganolfan Iaith a Dysgu, gyda'r nod o helpu ysgrifennu academaidd myfyrwyr ar bob lefel, yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- (iii) Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnal cyrsiau Saesneg gydol y flwyddyn i fyfyrwyr rhyngwladol i'w paratoi am gyrsiau gradd yn y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys Rhaglen Gyn-sesiynol yn yr haf sy'n helpu myfyrwyr rhyngwladol i godi eu sgôr yn y Saesneg i'r lefel angenrheidiol i gael eu derbyn, yn ogystal â rhoi'r sgiliau academaidd iddynt fel y gallent astudio ar lefel Addysg Uwch yng ngwledydd Prydain, heb fod o dan anfantais o'u cymharu â myfyrwyr gwledydd Prydain.
- (iv) Hefyd mae gan y Brifysgol Gyngorydd Rhyngwladol i roi cymorth a chynghor cyffredinol. Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu adnoddau sy'n bodloni anghenion arbenigol gwahanol grefyddau, er enghraifft, drwy ddarparu manau dialcohol a bwydydd arbennig.

#### **e. Hyfforddiant a Chefnogaeth**

##### **Y Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd a'r Adran Adnoddau Dynol**

- (i) Mae'r Ganolfan hon (y Swyddfa Datblygu Staff gynt) yn dal i weithio i ddarparu hyfforddiant ar sgiliau cyfweld. Y Cynghorydd Cyfartaledd a staff eraill o Adnoddau Dynol sy'n darparu'r hyfforddiant hwn, sy'n cynnwys elfen o ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb Hiliol o safbwynt ymwybyddiaeth gyffredinol o wahaniaethu. Mae'r hyfforddiant hwn yn orfodol i aelodau o staff sydd ar unrhyw banel cyfweld.
- (ii) Mae'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd yn dal i ddosbarthu datganiad ar Gyfle Cyfartal i bob un o'i hyfforddwyr allanol, ynghyd â gwe-gysylltiadau â'r wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, ac mae'n dal i fonitro cynnwys pob cwrs.

- (iii) Dechreuodd yr Adran Adnoddau Dynol ar ei chwrs e-ddysgu dwyieithog ar amrywioldeb, sy'n orfodol i bob aelod o staff y Brifysgol, ym mis Ebrill 2008 ar ôl cynnal dau ragbrawf o'r cwrs yn 2007. Ym mis Mawrth 2008, gwnaeth yr Is-Ganghellor a Phrifathro ddatganiad yn ategu ymroddiad y Brifysgol i hybu amrywioldeb a chyfle cyfartal, ac yn cefnogi'r fenter e-ddysgu ar amrywioldeb. Mae Adnoddau Dynol yn bwriadu ysgrifennu at bob aelod o staff sydd heb gyfrif e-bost gweithredol er mwyn adolygu eu hanghenion hyfforddi penodol hwy, e.e. staff heb gyfrifiaduron, anghenion dysgu penodol, ac yn y blaen, ac mae'n bwriadu darparu sesiynau cymorth ymarferol yn ôl y galw ac yn ôl yr ymatebion i'r llythyr.
- (iv) Mae'r Cynghorydd Cydraddoldeb yn dal i ddarparu hyfforddiant ar gydraddoldeb i adrannau penodol ar gais, e.e. y Gwasanaethau Gwybodaeth. Fel y digwyddodd y llynedd, rhoddwyd hyfforddiant i Swyddogion Sabothol a Rheolwyr Urdd y Myfyrwyr ym mis Mehefin 2007.

**Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg:**

- (v) Rhoddodd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg sesiynau Gloywi Iaith i staff yn yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes ym mis Mai a Mehefin 2007. Cafodd yr hyfforddiant ei deilwra yn unswydd i'r gweithle, gyda sesiynau ar sgiliau Cymraeg ysgrifenedig a sesiynau i ddysgwyr ar Gymraeg llafar.
- (vi) Bu trafod â'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion ynghylch sut i ymdrin â'r galw am sesiynau iaith wedi'u teilwra i grwpiau o staff o fewn yr adrannau. Gobeithio y cyflwynir rhaglen hyfforddi newydd yn y sesiwn academaidd 2008/09.
- (vii) Rhoddwyd cyflwyniad ar y Cynllun Iaith i aelodau newydd o staff yn y Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd ar 9 Tachwedd 2007.
- (viii) Rhoddwyd sesiynau ymarferol i dimoedd Adnoddau Dynol ar sut i roi'r Cynllun Iaith ar waith ar 19 a 27 Chwefror 2008.
- (ix) Bydd cyflwyniadau yn cael eu rhoi i bob adran yn y Brifysgol ar ôl i'r Cynllun Iaith diwygiedig gael ei gymeradwyo fel rhan o'r broses hybu ymwybyddiaeth am faterion dwyieithog.

**Y Rhwydwaith Aflonyddu Personol:**

- (i) Grŵp gwirfoddol o staff y Brifysgol yw'r Rhwydwaith Aflonyddu Personol. Gallent roi clust i aelodau o'r staff neu fyfyrwyr sy'n teimlo iddynt gael eu bwllian neu ddioddef aflonyddwch. Er bod trefn ffurfiol ymdrin â'r materion hyn yn y Brifysgol, mae'r Rhwydwaith yn cynnig dewis arall ac anffurfiol i gael siarad am y materion â chydweithwyr sydd wedi'u hyfforddi yn y maes ac sydd mewn sefyllfa i gydymdeimlo â heriau gweithio a dysgu yn y Brifysgol. Mae'r Cynghorydd Cydraddoldeb yn rhoi cefnogaeth i'r Rhwydwaith Aflonyddu Personol drwy fod yn gyfrwng cyfnewid gwybodaeth rhwng y grŵp a gweinyddiaeth y Brifysgol

**f. Prynu Nwyddau a Gwasanaethau**

- (i) Mae Rheolwr Caffael y Brifysgol yn ymwybodol o'r dyletswyddau yn ôl Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ac yn dal i ddefnyddio Adnoddau Cydraddoldeb y grŵp Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (Cydraddoldeb Pwrcasu mewn Addysg Uwch gynt) ar gyfer ei drefniadau caffael. Mae'r broses hon yn cynnwys holiadur cydraddoldeb i'r sector Addysg Uwch sy'n cael ei lenwi gan gyflenwyr sy'n gwneud cais am dendrau a reolir yn uniongyrchol gan y Rheolwr Caffael. Mae'r Adnoddau Cydraddoldeb hyn wedi'u datblygu i helpu'r rhai sy'n prynu nwyddau a gwasanaethau yn Addysg Uwch i ymdrin â'r gofynion i hybu cydraddoldeb ym mhob rhan o'u gwaith a chydymffurfio â darpariaethau statudol y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Yn ystod haf 2007, cwblhaodd y Rheolwr Caffael a thîm bychan o sawl maes yn y Brifysgol Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy y Sector Cyhoeddus a



ddatblygwyd gan Fforwm i'r Dyfodol (ac a gymeradwywyd gan Dîm Gwerth Cymru Llywodraeth y Cynulliad). Rhoddwyd adroddiad o gasgliadau'r Fframwaith Asesu i Weithgor Strategaeth Amgylcheddol y Brifysgol. Mae'r Fframwaith Asesu yn cynnwys elfen o asesu sefyllfa'r Sefydliad o ran cydraddoldeb ac amrywioldeb yng nghyd-destun ei waith caffael, ac mae'n rhoi awgrymiadau ynghylch sut y gellir gwella'r sefyllfa. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen rhaeadru'r ymarfer da hwn i adrannau eraill yn y Brifysgol sy'n prynu eu gwasanaethau a'u nwyddau yn annibynnol. Bydd yr Adolygiad ar Gaffael, sydd yn yr arfaeth, yn cynnwys ystyriaeth o sut mae materion cydraddoldeb ac amrywioldeb yn cael eu trin yn y gwaith caffael sydd wedi'i ddatganoli, a beth yw'r ffordd orau o sicrhau bod ymarfer da yn cael ei hybu drwy'r sefydliad.

- (ii) Mae'r Brifysgol yn deall bod prynu gwasanaethau a nwyddau yn ffordd o ddylanwadu ar gyrrff ac unigolion eraill a'u hannog i adolygu eu polisïau cydraddoldeb hiliol hwythau.

### **g. Y Gymraeg**

- (i) Yn unol â thelerau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae gan y Brifysgol bolisi o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Cafodd y Cynllun Iaith ei gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2003 a'i adolygu yn 2008. Bydd y Cynllun Iaith diwygiedig yn cael ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Medi 2008. Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg sy'n gyfrifol am fonitro sut mae'r Cynllun Iaith yn cael ei weithredu a hi sy'n cyflwyno adroddiadau blynyddol i Fwrdd yr Iaith (sef y bwrdd statudol sy'n gyfrifol am fonitro Cynlluniau Iaith) i sicrhau bod yr holl adrannau a chanolfannau yn y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun. Mae'r Cynllun Iaith diwygiedig yn cynnwys Strategaeth Sgiliau Dwyieithog sy'n ceisio hybu gallu'r Brifysgol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Mae gwersi Cymraeg a gloywi iaith ar gael yn rhad ac am ddim i bob aelod o'r staff ac yn cael ei ddarparu gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg a'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion.
- (ii) Y Ganolfan hefyd yw cartref Uned Gyfieithu y Brifysgol, ac mae'r uned honno'n darparu gwasanaeth i'r Sefydliad cyfan. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod y Gymraeg yn rhan annatod o'i hymrwymiad i gydraddoldeb hiliol a bod angen dilysu a pharchu diwylliant y Gymraeg a'r Cynllun Iaith.

### **h. Y Strategaeth Dysgu ac Addysgu**

- (i) Mae'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu wedi'i hadolygu i'r cyfnod 2007-10 ac mae'n hyrwyddo cydraddoldeb hiliol drwy fynegi'n glir ymrwymiad y Brifysgol i ddarparu amgylchedd dysgu diogel a chefnogol sy'n agored i bawb sy'n gymwys i elwa ohono.
- (ii) Yn benodol, mae'n hymrwymiad i adolygu dysgu ac addysgu er mwyn inni allu parhau i fodloni anghenion amrywiol y myfyrwyr yn eu crynswth yn golygu hybu cydraddoldeb y rhywiau a chydraddoldeb hiliol drwy sicrhau bod y rhaglenni a'r modiwlau yn briodol i gymdeithas amryfath.

***Crynodeb: Caiff cydraddoldeb hiliol ei wreiddio a'i roi yn y brif ffrwd drwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau i'n myfyrwyr a'n staff.***

## **4. Monitro Ethnig**

- (i) (i) O dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, mae'n ddyletswydd benodol flynyddol ar y Brifysgol i fonitro, yn ôl eu grwpiau hiliol, y myfyrwyr a dderbynnir a'r cynnydd y maent yn ei wneud, yn ogystal â'r staff sy'n cael eu recriwtio a'u cynnydd hwythau. Mae'r data yn cael ei ddadansoddi i weld a oes grwpiau ethnig penodol

sy'n cael eu tangynrychioli ac a oes rhwystrau sefydliadol sy'n eu hatal rhag bod yn rhan o'r sefydliad y gellid cael gwared arnynt. Mae'r categorïau penodol yn dod o god ymarfer statudol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ac mae adroddiad manylach o'r data a gasglwyd i'w gael yn Atodiad A.

- (ii) Fel yn yr adroddiadau blaenorol, mae data wedi'i ddsbarthu yn ôl cyfansoddiad hiliol y staff a gyflogir gan y Brifysgol, a chyfansoddiad hiliol y corff o fyfyrwyr, er mwyn sefydlu llinell waelodol. Yn 2007 roedd y data a gasglwyd yn fwy cynhwysfawr yn sgil yr ymateb i'r asesiadau gan bartneriaeth JGP a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Fel y data i 2007, mae'r data a roddir yn 2008, sydd wedi gwella mewn rhai meysydd yn ystod y flwyddyn, yn dilyn canllawiau gwreiddiol Cod Ymarfer Statudol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.
- (iii) Mae'r Brifysgol yn trefnu'r data yn unol â'r categorïau ethnig a argymhellir yng nghanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol i fonitro ethnig. Serch hynny, mae'r data a gafwyd o fonitro'r myfyrwyr a dderbynnir a'u cynnydd, a'r ffigurau ynghylch y staff sy'n cael eu recriwtio a'u cynnydd hwythau, yn defnyddio data a ddarparwyd gan gyrrff cenedlaethol eraill, e.e. HESA, UCAS, ac efallai na fyddent yn gyson mewn rhai categorïau.
- (iv) Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn dal i fireinio a diweddarau'r data am y staff, gan gynnwys diweddarau meysydd y data ar ethnigrwydd (e.e. safoni codau ethnigrwydd yn unol â gofynion HESA) a chenedligrwydd. Mae dros 200 o staff wedi'u trosglwyddo i'r Brifysgol o Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd a'u cynnwys ar gronfa ddata *Cyborg* Adnoddau Dynol. Mae glanhau data yn flaenoriaeth wrth gyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).
- (v) Mae'r ffynonellau mewnol o wybodaeth ar gyfer adroddiad 2007-08 yn cynnwys y Gwasanaethau Gwybodaeth Reoli, yr Adran Adnoddau Dynol, Partneriaeth Ehangu Mynediad y Gorllewin a'r Canolbarth, y Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol, Canolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academiaidd, Derbyn a Denu, y Swyddfa Academiaidd, y Rhwydwaith Aflonyddu, Urdd y Myfyrwyr, Datblygu a Materion Allanol, Cynghori ar Yrfaedd, y Consortiwm Rhyngwladol, Iaith a Dysgu, Caffael, Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori, a Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg. Mae'r ffynonellau allanol yn cynnwys Cyfrifiad Cenedlaethol 2001, Awdurdodau Lleol, Heddlu Dyfed-Powys, Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ac UCAS.
- (vi) Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, mae'r diffiniad o Ddu a Lleiafrif Ethnig (DLIE) yn cynnwys y categorïau hyn, yn unol â diffiniadau HESA: Du neu Ddu Prydeinig – Caribiaidd; Du neu Ddu Prydeinig – Affricanaidd; Cefndir Du Arall; Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – Indiaidd; Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – Pacistani; Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – Bangladeshi; Tsieineaidd; Cefndir Asiaidd Arall; Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd; Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd; Cymysg – Gwyn ac Asiaidd; Cefndir Cymysg Arall; a Chefndir Ethnig Arall.
- (vii) Cofnodir Cefndir Gwyn Arall ar wahân. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr o wledydd Dwyrain Ewrop, e.e. myfyrwyr o Slofacia, Gwlad Pwyl, ac yn y blaen, ond hefyd mae'n cynnwys myfyrwyr o UDA, Canada, Seland Newydd, ac yn y blaen.
- (viii) **Cymariaethau demograffig:**  
Fel yn yr adroddiadau blaenorol, mae cyfrifiad 2001 yn cofnodi bod 1.4% o boblogaeth Ceredigion yn dod o leiafrifoedd ethnig. Mae hynny'n cymharu â 2.1% ar gyfer Cymru a 7.9% ar gyfer y DU gyfan. Yn Aberystwyth ei hun y mae'r prif grynodiad o leiafrifoedd ethnig yng Ngheredigion, ac mae hynny'n adlewyrchu'r ffaith mai yma y mae'r Brifysgol ac Ysbyty Bronglais.

- (ix) Mae'r ffigurau isod yn crynhoi ffigurau 2008 i fyfyrwyr a staff y Brifysgol o safbwynt hil. Rhoddir adroddiad cynhwysfawr o'r data a gasglwyd a dadansoddiad yn Atodiad A.
- (x) **Monitro'r Myfyrwyr:**  
Rhoddir cymhariaeth o'r data a gafwyd yn yr Adroddiadau Hil Blynyddol ers 2003 yn y tabl isod. Dylid nodi bod y data yn cyfeirio at y flwyddyn flaenorol felly mae 2008 yn rhoi'r myfyrwyr a gofnodwyd yn 2006-2007.

Adroddiad	Data	Cyfanswm y Myfyrwyr	DLIE – Is-raddedigion	DLIE – Uwch-raddedigion	Cyfanswm y Myfyrwyr DLIE	%
2003	2001-2	8439	220	278	498	5.90%
2004	2002-3	8745	282	340	622	7.11%
2005	2003-4	9090	365	334	699	7.69%
2006	2004-5	9263	453	352	805	8.69%
2007	2005-6	9169	455	276	731	7.97%
2008	2006-7	8821	419	234	653	7.40%
	2007-8	8584	383	212	595	6.93%

- (xi) O'u cymharu â 2007, pan oedd 7.97% o gyfanswm y myfyrwyr yn rhai DLIE o wledydd Prydain a Thramor, mae'r ffigur wedi lleihau ychydig i 7.4%, ac mae'r ffigurau presennol yn dangos peth lleihad eto i 6.93%.
- (xii) Mae'n bosib bod y lleihad bach hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod llai o israddedigion amser-llawn yn dod o Loegr. Er bod mwy o fyfyrwyr wedi dod o Gymru nid yw hynny wedi digolledu'r gostyngiad yn y niferoedd o fyfyrwyr o Loegr a'r effaith wedyn ar y niferoedd o fyfyrwyr DLIE a ddenir.
- (xiii) Os yw'r ganran o fyfyrwyr DLIE (7.4%) yn cael ei chyfuno â Chefndir Gwyn Arall (3.62%), mae'n rhoi cyfanswm o 11.02% o fyfyrwyr DLIE i Brifysgol Aberystwyth.
- (xiv) Mae gofynion mynediad y Brifysgol i gyrsiau unigol yn gyffredin ar draws pob grŵp ethnig. Nid oes tystiolaeth bod ymgeiswyr DLIE yn cael eu gwrthod ar raddfa anghymesur.
- (xv) **Monitro'r Staff:**  
Yn 2005, cofnodwyd mai 3.5% o'r staff oedd yn dod o gefndiroedd DLIE a chymysg; yn 2006, cofnodwyd mai 3.86% o'r staff ddaeth o gefndiroedd DLIE, cymysg a 'gwyn arall' ac yn 2007, mae 3.5% o'r staff wedi'u nodi yn DLIE gyda 1.4% ar ben hynny yn dod o gefndiroedd gwyn eraill, sy'n golygu cyfanswm o 4.9% o staff o leiafrifoedd ethnig. Dyma'r ffigurau i'r cyfan o'r 2235 o staff yn 2008:

Asiaidd Arall	10	
Bangladeshi	*	
Pacistani	*	
Indiaidd	10	
Du Affricanaidd	10	
Du Caribiaidd	*	
Tsieineaidd	18	
Cymysg Gwyn/Du Caribiaidd	*	
Cymysg Gwyn/Du Affricanaidd	*	
Cymysg Arall	*	
Arall	19	
	<b>75</b>	<b>3.36%</b>

**Monitro Staff**

Mae \* yn sefyll am 5 neu lai na 5, wedi'i roi yma i sicrhau cyfrinachedd. Mae'r ffigurau wedi'u cynnwys yn y cyfanswm

Cefndir Gwyn Arall	143	6.40%
--------------------	-----	-------

9.75%
-------

- (xvi) Mae'r data i 2008 yn dangos gostyngiad bach iawn i 3.36% o staff Du, Asiaidd a Chymysg, ond cafwyd cynnydd mawr yn y rhai o Gefndiroedd Gwyn Eraill i 6.4%, sef cyfanswm o 9.75% (218 o staff). O'r cyfanswm hwn, mae tua 52% yn fenywod, sy'n dangos y cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y staff DLIE a Gwyn Arall. Mae 2.75% o'r staff DLIE a Gwyn Arall wedi datgan bod anabledd arnynt, o'u cymharu â'r ffigur i'r staff i gyd a roddwyd ym mis Ionawr 2008, sef 2.73%. Mae'r ystadegau hyn yn dangos y ceir cydbwysedd yn y staff DLIE a Gwyn Arall a gyflogir yn y Brifysgol.
- (xvii) Mae staff y Brifysgol yn dod o fwy na 50 o wledydd gyda'r grŵp mwyaf, sef 38, yn dod o'r Almaen, ac wedyn Tsieina (Gweriniaeth y Bobl, a Taiwan) 15, Gwlad Pwyl 12, yr Unol Daleithiau 12 a Sbaen 10.
- (xviii) Mae'n debyg y gellir esbonio'r cynnydd yn y staff DLIE a Gwyn Arall oherwydd bod ffigurau mwy manwl-gywir ar gael drwy gronfa *Cyborg* Adnoddau Dynol yn sgil prosesau glanhau data a choladu meysydd ethnigrwydd yn ehangach. Saif y ffigurau i Wyn Prydeinig, Seisnig, Gwyddelig, Albanaid a Chymreig ar 80%, gydag 1.79% yn gwrthod rhoi gwybodaeth a 8.37% yn Anhysbys. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.
- (xix) Mae staff o leiafrifoedd ethnig yn dal i fod ar draws graddau swyddi'r Brifysgol, gan gynnwys staff yn y graddau uwch, yn ogystal â'r graddau gwaith llaw a chynorthwyol.
- (xx) **Data Arall:** Yn Ebrill 2007, cynhaliwyd Holiadur ar Sgiliau Iaith gan yr adran Adnoddau Dynol, ar y cyd â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, sy'n gyfrifol am fonitro sut mae'r Cynllun Iaith yn cael ei weithredu. Anfonwyd yr holiadur i 1900 o aelodau'r staff i weld pa lefel o sgiliau oedd ganddynt yn y Gymraeg o safbwynt deall, siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg, yn ogystal â'u gallu i ddysgu myfyrwyr drwy'r Gymraeg. Cofnodwyd mai tua 19% o'r staff oedd yn siarad yn rhugl a chofnodwyd bod 5% yn dysgu neu'n hyfforddi drwy'r Gymraeg ar hyn o bryd, er mai 9% oedd yn gallu gwneud.
- (xxi) Rhaid pwysleisio na chafwyd ymateb gan yr holl staff ac felly nad yw'r casgliadau yn gynhwysfawr. Dim ond yn ddiweddar mae'r Brifysgol wedi gweithredu trefn i ddosbarthu'r holiadur i aelodau newydd o'r staff gyda'u contract cyflogaeth. Serch hynny, mae Adnoddau Dynol wrthi'n gweithio ar broffil ieithyddol pob adran er mwyn creu darlun mwy cyflawn a diweddar o sgiliau dwyieithog y Brifysgol, ac fe fydd y wybodaeth a ddaw o'r staff a benodir ers Ebrill 2007 yn cyfrannu at greu darlun mwy cyflawn.
- (xxii) Mae'r data a gofnodwyd yn Ebrill 2008 yn dangos bod 52% o'r 2235 aelod o staff wedi llenwi'r holiadur. Roedd yr arolwg hwnnw yn dangos mai 14% o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Mae 3% o'r staff yn dysgu neu'n hyfforddi drwy'r Gymraeg er bod cyfanswm o 5.5% yn dweud eu bod yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod y ffigurau hyn i'w gweld yn is na'r flwyddyn gynt fe ddylid cofio bod cyfanswm y staff yn y Brifysgol wedi cynyddu ac nad yw'r staff diweddaraf wedi'u cynnwys yn y data ieithyddol hyd yn hyn.
- (xxiii) Mae'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau'r 'drydedd genhadaeth' ac mae'n darparu amrywiaeth o gynlluniau i gefnogi mentrwyr busnes sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol neu sy'n datblygu gyda chymorth y Brifysgol. Mae

Cynlluniad Cenedlaethol Cymru yn monitro cefndir ethnig y staff a'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn (e.e. y Gronfa Datblygu Gwybodaeth, Cynllun Deillio Cymru, Graddio i Fenter, Deorfa Crisalis). Yn 2007, o'r 85 o bobl a gofrestrodd ddi-ddordeb yn Rhaglen Deillio Cymru, cofnodwyd bod 57 ohonynt yn hanu o wledydd Prydain neu Iwerddon, 4 o wledydd Ewrop, a 6 ohonynt o wledydd tramor eraill.

- (xxiv) Mae data wedi'i gasglu o'r Gwasanaeth Cynghori ar Yrfaeodded yn 2008 ar y cyrchfannau Gwaith ac Astudio y graddedigion, y niferoedd sydd mewn gwaith cyflogedig amser-llawn a lleoliadau'r gwaith. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.
- (xxv) Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i ddal ati i gynyddu'r ganran o ymgeiswyr, am leoedd astudio ac am swyddi, sy'n dod o leiafrifoedd ethnig.

**Crynodeb:** *Mae ffigurau'r myfyrwyr yn dangos bod ychydig yn llai o fyfyrwyr Ble, sef 7.4% yn 2006-07. Ond mae ystadegau'r staff yn dangos bod y staff Ble wedi cynyddu i 9.75% yn 2008. O'u cymharu ag ystadegau canran y boblogaeth i Geredigion (1.4%), Cymru (2.1%) a'r Deyrnas Gyfuno gyfan (7.9%), mae'r ffigurau hyn yn gymharol galonogol ac yn dangos patrwm cyson.*

## 5. Casgliadau

- (i) Yn ei Chynllun Strategol mae'r Brifysgol yn ceisio: (a) cydymffurfio â gofynion y gyfraith o ran cydraddoldeb ac amrywioldeb; (b) dal ati i wreiddio cydraddoldeb ac amrywioldeb ym mhob maes gweithredu, a gweithio mewn ffordd sy'n darparu cyfle cyfartal i bawb; ac (c) yn dal ati i ddatblygu diwylliant lle y bydd y myfyrwyr, y staff ac ymwelwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch mewn amgylchedd lle y gwerthfawrogir amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau.
- (ii) Mae'r Brifysgol yn dal yn ymroddedig i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil, ac i hybu cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hil yn unol â Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000.
- (iii) Mae'r Brifysgol yn cydnabod nad mater o ofynion deddfwriaethol mo cydraddoldeb hiliol ond mater o ddyletswydd foesol fel darparwr addysg. Mae cydraddoldeb hiliol yn rhan allweddol o fframwaith cydraddoldeb y Brifysgol, ac mae camau breision wedi'u cymryd o ran gweithredu a hybu cydraddoldeb hiliol yn ystod y blynyddoedd diweddar.
- (iv) Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen gwella ac ailddiffinio ei gweithgareddau er mwyn bwrw ymlaen ymhellach â'i hymroddiad a'i hymrwymiaid o dan Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Mae hi hefyd wrthi'n datblygu golwg 'amlgainc' ar gydraddoldeb, gan blethu cydraddoldeb hiliol â cheinciau eraill cydraddoldeb, gyda golwg ar ddatblygiadau y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'i ymroddiad i'r agenda Ehangu Cyfranogiad.
- (v) Mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi parhau â'i gwaith i lanhau data a diweddarau llawer o'i data ar y staff, e.e. data ar darddiad ethnig a hunaniaeth genedlaethol, ac mae wedi mireinio rhai o'i mecanweithiau monitro. Mae'r adroddiad hwn i 2008 yn cynnwys mwy o ddata na'r un adroddiad a gyhoeddwyd o'r blaen.
- (vi) Mae strategaeth i ddenu myfyrwyr tramor wrthi'n cael ei datblygu dan arweinyddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu ac Addysgu).

- (vii) Mae'r Brifysgol yn dal i fynd ati'n rhagweithiol i gydweithredu â'i phartneriaid a chyrrff allanol ac i rannu ymarfer da mewn materion cydraddoldeb hiliol.

Ms. Olymbia Petrou  
Yr Adran Adnoddau Dynol  
31 Mai 2008  
opp@aber.ac.uk